

# Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau bwyd newydd CBD yn agosáu

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn atgoffa'r diwydiant CBD bod yn rhaid i fusnesau gyflwyno [ceisiadau bwyd newydd](#) i'w dilysu er mwyn parhau i werthu eu cynhyrchion yng Nghymru ac yn Lloegr. Nid yw cynhyrchion CBD yn cael eu hawdurdodi ar hyn o bryd, felly gosodwyd y dyddiad cau er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn cydymffurfio â rheoliadau bwyd newydd.

Bydd ceisiadau yn destun gwiriad gweinyddol 8 diwrnod, ac yna gall gymryd hyd at 30 diwrnod gwaith i ddilysu cais. Yna bydd y ceisiadau wedi'u dilysu yn parhau trwy broses awdurdodi sy'n sicrhau bod bwyd newydd yn bodloni safonau cyfreithiol, gan gynnwys ar ddiogelwch a chynnwys.

Awdurdodau lleol sy'n gorfodi deddfwriaeth bwyd newydd. Fe'u cynghorwyd mai dim ond cynhyrchion a oedd ar werth ar adeg [cyhoeddiad dyddiad cau](#) yr ASB (13 Chwefror 2020) a chynhyrchion sy'n gysylltiedig â cheisiadau bwyd newydd sydd wedi'u dilysu ddylai barhau i fod ar werth o 1 Ebrill 2021.

Meddai Emily Miles, Prif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

'Mae cynhyrchion CBD wedi bod ar gael yn eang ar y stryd fawr ers cryn amser, ond credwn ei bod yn bwysig iawn fod pobl sy'n dewis prynu cynhyrchion CBD yn gwybod bod gwiriadau diogelwch ar waith.

'Ym mis Chwefror 2020, gwnaethom ofyn i'r diwydiant CBD ddarparu rhagor o wybodaeth am ddiogelwch a chynnwys y cynhyrchion hyn. Mae nifer o geisiadau bwyd newydd eisoes wedi dod i law, ond rydym ni'n gwybod bod rhagor i ddod. Gyda'r dyddiad cau yn prysur agosáu, byddwn ni'n annog pob busnes i gyflwyno eu ceisiadau mewn da bryd.

'O 1 Ebrill 2021, cynghorir busnesau i dynnu cynhyrchion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf oddi ar y farchnad.'

Yn seiliedig ar argymhellion y Pwyllgor ar Wenwyndra, mae'r ASB yn cynghori, fel mesur rhagofalus, na ddylai'r rhai sy'n feichiog, yn bwydo ar y fron neu'n cymryd unrhyw feddyginiaeth gymryd cynhyrchion CBD. Cynghorir oedolion iach hefyd i feddwl yn ofalus cyn cymryd CBD, ac rydym ni'n argymhell dim mwy na 70mg y dydd (tua 28 diferyn o 5% CBD) oni bai o dan gyfarwyddyd meddygol.

## Beth yw CBD?

Mae CBD yn gemegyn a geir yn naturiol yn y planhigyn cannabis. Dim ond yn ddiweddar iawn y cafodd ei dynnu a'i werthu fel rhin (extract) CBD ar wahân. Gellir dod o hyd i rin CBD mewn ystod o gynhyrchion fel olewau, melysion, cynhyrchion becws a diodydd.

Cadarnhawyd CBD fel cynnyrch bwyd newydd ym mis Ionawr 2019. O dan y rheoliadau bwyd newydd, rhaid i'r rheoleiddiwr diogelwch bwyd werthuso ac awdurdodi bwyd neu gynhwysion bwyd nad oes ganddynt hanes o'u bwyta cyn Mai 1997 cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad.

Yr ASB sy'n gyfrifol am reoleiddio CBD fel bwyd newydd. Nid yw hyn yn cynnwys colur, anweddau (vapes), cynhyrchion sy'n gwneud honiadau meddyginiaethol neu gynhyrchion sy'n cynnwys cyffuriau rheoledig fel THC.

## **Awdurdodi bwyd newydd**

Dylai busnesau sy'n dymuno gwerthu eu cynhyrchion ym Mhrydain gyflwyno eu ceisiadau bwyd newydd trwy'r [system Cynhyrchion wedi'u Rheoleiddio](#) newydd a weithredir ar y cyd gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban.

Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn amlinellu cyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys rheoliadau bwyd newydd a dylai busnesau sy'n dymuno gwerthu cynhyrchion CBD yng Ngogledd Iwerddon barhau i gyflwyno ceisiadau awdurdodi bwyd newydd i'r Comisiwn Ewropeaidd.

## **Gorfodi**

Yr ASB yw adran y llywodraeth sydd â'r cyfrifoldeb polisi am ddiogelwch bwyd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, ond mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi rheoliadau bwyd newydd o ddydd i ddydd. Rydym ni'n cyhoeddi canllawiau i gefnogi cysondeb o ran dull gweithredu, ond yn y pen draw, awdurdodau lleol sy'n gwneud penderfyniadau gorfodi penodol yn seiliedig ar ffeithiau achosion ac amgylchiadau penodol.